

SAFONAU IAITH GYMRAEG ADRODDIAD CYDYMFFURFIO A MONITRO 25^{ain} MAI 2021

Mae'r tabl hwn wedi grwpio'r Safonau mewn themâu, er hwylustod. Mae rhestr lawn o'r safonau ar gael yn: <http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2017/01/20160801-Hysbysiad-Cydymffurfio44-Cyngor-Sir-Fynwy-cy.pdf>

Safonau sy'n ymwneud â:	Crynodeb o ddisgwyliadau newydd a grëwyd gan y Safon	Risgiau / Heriau i Gyngor Sir Fynwy	Camau Gweithredu Gofynnol / Opsiynau i'w hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau	Diweddariad ar Gynnydd
Gohebiaeth ysgrifenedig (Safonau 1-7)	Dylai unrhyw ohebiaeth nodi bod pobl yn gallu ymateb i ni yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rhaid ni gadw cofnod o ddewis iaith pobl a defnyddio'r iaith honno mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol (30 Medi).	Darparu ymateb prydlon pan mae angen anfon yr ohebiaeth gychwynnol a'r ymateb am gyfieithiad allanol. Cynnal cofnod cywir o ddewisiadau iaith ar draws amryw systemau TGCh sy'n cadw cofnod o fanylion cleientiaid.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adnabod opsiynau i ddarparu llwybr carlam ar gyfer ceisiadau cyfieithu penodol. 2. Archwilio'r drefn fwyaf gost effeithiol o gaffael llwyth gwaith cyfieithu uwch, gan gynnwys cyflogi cyfieithydd mewnol. 	<p>Mae system raddio yn gweithredu er mwyn dynodi lefel y brys ac mae'n gweithio'n effeithlon iawn. (Lefel 1 Brys – 1 diwrnod. Lefel 2 cymedrol 2 – 5 diwrnod. Lefel 3 dim dyddiad gorffen na brys penodol).</p> <p>Mae'r cyngor yn caffael gwasanaethau 5 cyfieithydd allanol ac mae'r gwasanaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Swyddog Iaith Gymraeg ar y cyd â'r swyddog sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.</p>
Teleffoni, hybiau a derbynfydd (Safonau 8-22 a 64-68)	Roedd disgwyl i ni gynnig: gwasanaeth ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein canolfan gyswllt erbyn 30 Mawrth; gwasanaeth Gymraeg ar y dderbynfa ym Mrynbuga erbyn 30 Mawrth ac ym mhob derbynfa arall erbyn 30 Medi 2017 – estyniad y cytunwyd arno gan y Comisiynydd.	Nifer isel o staff sy'n siaradwyr Cymraeg (tua 31). Mae trosiant staff yn y swyddogaethau hyn yn parhau i fod yn isel iawn felly yr ydym yn darparu hyfforddiant i wella sgiliau presennol.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Hyfforddi Staff ar dderbynfydd ac mewn Hybiau (y Swyddog Iaith Gymraeg yw'r swyddog arweiniol). 2. Angen cynllunio'r gweithlu. 3. Creu system 'dolen' neu 'chwilio' ffôn gyda galwadau'n cael eu hailgyfeirio i'r siaradwr Cymraeg cyntaf sydd ar gael, waeth beth fo'i leoliad corfforol neu dîm. 	<p>Mae cyrsiau'n cael eu cynnal yn flynyddol ar gyfer staff. Ym mis Medi 2021 bydd y cynnig arferol – Mynediad, Sylfaen, Uwch a Gloywi yn cael ei ategu gan lwybr carlam peilot cwrs "Say Something in Welsh" er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Cwblhawyd Cynllun Peilot Cynllunio Gweithlu'r Gymraeg ar 22^{ain} Tachwedd 2017. Gwnaed argymhellion a chytunwyd arnynt.</p> <p>Cyflwynwyd y Llinell Gymraeg ar y 4^{ydd} Gorffennaf 2016. Erbyn hyn mae 4 siaradwr Cymraeg yn gweithredu ar system ddolen.</p>

Safonau sy'n ymwneud â:	Crynodeb o ddisgwyliadau newydd a grëwyd gan y Safon	Risgiau / Heriau i Gyngor Sir Fynwy	Camau Gweithredu Gofynnol / Opsiynau i'w hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau	Diweddariad ar Gynnydd
Cymraeg mewn cyfarfodydd (Safonau 24-34)	<p>Rhaid i ni hysbysebu bod modd i bobl siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Os yw 10% o'r sawl sy'n mynychu yn dewis defnyddio'r Gymraeg, rhaid i ni ddarparu cyfieithu ar y pryd.</p> <p>Os yw cyfarfod yn cynnwys un aelod o'r cyhoedd/busnes/partner yn unig a bod y person hwnnw yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid i ni ddarparu cyfieithu ar y pryd.</p> <p>Rhaid i wahoddiadau i unrhyw gyhoeddiadau cyhoeddus fod yn ddwyieithog a nodi bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg.</p>	Bydd angen i bobl roi rhybudd o flaen llaw.	<p>Sicrhau bod pob swyddog yn ymwybodol o'r gofyniad hwn ac yn ei ymgorffori yn eu llythyrau a hysbysiadau cyhoeddus.</p> <p>Darparu rhestr o ddarparwyr i ganiatáu i drefniadau gael eu gwneud.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r broses wedi'i sefydlu gyda rhestr o gyfieithwyr y gellir eu caffael. Nodir y cynnig laith Gymraeg ar holl agendâu a phecynnau agenda'r Cyngor ar fersiynau Cymraeg a Saesneg o wefan y Cyngor.
Digwyddiadau cyhoeddus (Safonau 35-38, 87)	Dylai digwyddiadau cyhoeddus, megis gwyliau, ddefnyddio deunydd cyhoeddusrwydd, arwyddion a chyhoeddiadau annerch cyhoeddus dwyieithog, mae hyn yn berthnasol os mai ni sy'n darparu dros 50% o'r ariannu. Dylid defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf (ar ôl 30 Medi). Dylai unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu hefyd fod ar gael yn Gymraeg e.e. ffilmiau hyrwyddo.	Gallai'r nifer gymharol isel o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal olygu ei bod yn anodd denu cyhoeddwyr dwyieithog - yn enwedig pan ddefnyddir gwirfoddolwyr.	Sicrhau bod timau digwyddiadau yn gwbl ymwybodol o ofynion y Ddeddf.	<ul style="list-style-type: none"> Mae staff digwyddiadau wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi pwrpasol ac maent yn ymwybodol o'r gofynion.
Papurau ar gyfer busnes y cyngor (Safon 41)	Rhaid i agendâu a chofnodion unrhyw gyfarfodydd y cyngor sydd ar gael i'r cyhoedd fod yn ddwyieithog.	Mae gwasanaeth cyfieithu prydlon yn lliniaru unrhyw risg.	Sicrhau bod cofnodion yn gofnod cywir a chryno o'r cyfarfod er mwyn lleihau'r costau cyfieithu.	<ul style="list-style-type: none"> Cynhyrchir holl agendâu'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau Craffu yn ddwyieithog ar yr un pryd â fersiwn Saesneg o'r agenda. Caiff y broses hon ei hwyluso a'i monitro gan y Swyddog laith Gymraeg mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.
Trwyddedu (Safon 42)	Rhaid i unrhyw drwyddedau neu dystysgrifau fod yn ddwyieithog.		Sicrhau bod pob trwydded yn ddwyieithog pan gyhoeddir rhai newydd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Adran Trwyddedu yn cydymffurfio ac mae popeth yn ei le. Mae hysbysiadau cynllunio i gyd yn ddwyieithog - ar byst lamp stryd ac yn y wasg leol. Caiff hyn ei fonitro gan y Swyddog laith Gymraeg.

Safonau sy'n ymwneud â:	Crynodeb o ddisgwyliadau newydd a grëwyd gan y Safon	Risgiau / Heriau i Gyngor Sir Fynwy	Camau Gweithredu Gofynnol / Opsiynau i'w hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau	Diweddariad ar Gynnydd
Dogfennau (Safonau 43-50B)	<p>Dylid cyhoeddi unrhyw lyfyrnau neu daflenni sy'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg, gan gynnwys rheolau; dylai pob ffurflen fod yn ddwyieithog; dylid cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Gymraeg ar yr un pryd â rhai Saesneg.</p> <p>Bydd angen i bolisiâu, strategaethau ac adroddiadau blynyddol fod ar gael yn Gymraeg erbyn 30 Medi.</p>	Mae gwasanaeth cyfieithu prydlon yn lliniaru unrhyw risg.	Pan fyddwn yn cynhyrchu fersiynau ar wahân o ddogfen dylai'r fersiwn Saesneg nodi ei bod hefyd ar gael yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Swyddog Gwe a'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos i fonitro bod tudalennau cyfatebol yn bresennol ar y wefan ac yn mynd ar drywydd unigolion os oes unrhyw anghysondebau. Mae'r cyngor wedi ymgysylltu â sefydliad allanol i gynnal archwiliad blynyddol i ategu'r un a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod arfer da dwyieithog ar flaen meddyliau swyddogion drwy gydol y flwyddyn.
Gwefannau a Chyfringau Cymdeithasol (Safonau 52-59)	<p>Rhaid i bob tudalen we fod ar gael yn Gymraeg (erbyn 30 Mawrth).</p> <p>Rhaid i bob neges Twitter a Facebook corfforaethol o gyfrifon Cyngor Sir Fynwy gael eu cyhoeddi yn Gymraeg (erbyn 30 Medi).</p>	Mae gwasanaeth cyfieithu prydlon yn lliniaru unrhyw risg.	<p>Adnabod opsiynau i ddarparu llwybr carlam ar gyfer ceisiadau cyfieithu penodol.</p> <p>Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rheoli cyfrifon cyfringau cymdeithasol yn gwbl ymwybodol o'r angen i weithredu'r rhain yn ddwyieithog.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Datblygwyd system graddio i nodi faint o frys sydd am y cyfieithiad. Mae hyn yn galluogi'r amserlenni cywir ar gyfer cyfieithu. Mae cyfrif Facebook Cymraeg a chyfrif Twitter dwyieithog ar waith. Mae'r broses yn cael ei monitro gan staff cyfathrebu'r cyngor a'r Swyddog Iaith Gymraeg.
Arwyddion (Safon 61-63)	Mae disgwyliad, pan ein bod yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd, gan gynnwys arwyddion ffyrdd, y dylai'r Gymraeg ddod cyn y Saesneg.	Dim risg gan fod y system wedi ymgolli yn y gwaith o weithredu'r gwasanaeth.		<ul style="list-style-type: none"> Mae prosesau ar waith - lefel hanesyddol dda iawn o gydymffurfiaeth â dim ond un maes sy'n peri pryder - materion achlysurol ynghylch fersiynau Cymraeg dadleuol o enwau lleoedd lleol. Defnyddir y Rhestr Enwau Lleoedd o hen Fwrdd yr Iaith Gymraeg a chyngor ac arweiniad gan hanesydd lleol arbenigol o'r Gymraeg fel y canolwr yn yr achosion hyn. Ymdrinnir â'r broses hon a'i monitro gan y Swyddog Iaith Gymraeg.
Hysbysiadau Swyddogol (Safonau 69-70)	Dylai pob hysbysiad swyddogol fod yn ddwyieithog heb drin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.			<ul style="list-style-type: none"> Monitro'r wasg leol a wneir gan y Swyddog Iaith Gymraeg ac nid oes unrhyw bryderon i'w hadrodd.

Safonau sy'n ymwneud â:	Crynodeb o ddisgwyliadau newydd a grëwyd gan y Safon	Risgiau / Heriau i Gyngor Sir Fynwy	Camau Gweithredu Gofynnol / Opsiynau i'w hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau	Diweddariad ar Gynnydd
Grantiau a thendrau (Safonau 71-80, 94)	Rhaid i ddogfennau grant fod yn ddwyieithog, rhaid i ni ddarparu cyfieithu ar y pryd pan fo rhywun yn gofyn am hyn, os oes angen cyfweld ag ymgeisydd am grant. Rhaid i ni hysbysebu bod modd cyflwyno tendrau yn Gymraeg.			<ul style="list-style-type: none"> Gofynnir am ddewis iaith yr ymgeiswyr tendr er mwyn galluogi darparu dogfennau yn newis iaith y sawl sy'n tendro.
Cyrsiau Addysg (Safonau 84-86)	Rhaid i gyrsiau sydd ar agor i'r cyhoedd hefyd fod ar gael yn Gymraeg.	Mae gan Gyngor Sir Fynwy eithriad i'r safon hon, cyhyd â'n bod yn gallu dangos bod dim galw am gynnig cwrs penodol trwy gyfrwng y Gymraeg.	Sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol eu bod yn gallu mynegi eu dewis bod cwrs yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg. Rhaid i ni gasglu tystiolaeth o'r angen i gyflwyno'r cwrs yn Gymraeg. Byddai'n cael ei darparu dim ond pe fyddai digon o alw.	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan bob ffurflen gais ddwyieithog am gyrsiau Addysg Gymunedol adran i ganiatáu i ddewis iaith Gymraeg gael ei fynegi arnynt, er mwyn caniatáu i asesiad gael ei wneud. Ni wnaed unrhyw gais am ddarpariaeth Gymraeg hyd yma. Caiff y broses hon ei monitro'n ofalus gan staff Addysg Gymunedol.
Llunio Polisi (Safonau 88-97)	Wrth lunio polisi, rhaid ystyried yr effaith ar y Gymraeg er mwyn uchafu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau andwyol.	Mae potensial o her gyfreithiol ar benderfyniad os nad ydym yn gallu dangos ein bod yn ystyried y safonau hyn wrth lunio polisi.	Sicrhau bod yr Asesiad Cenedlaethau'r Dyfodol (Cynladwyedd ac Effaith ar Gydraddoldeb) yn effeithiol wrth adnabod unrhyw oblygiadau ar gyfer yr Iaith Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> Ychwanegwyd adran benodol ar lunio polisiâu a'r Iaith Gymraeg at y broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yr ydym yn datblygu dogfen Asesu'r Gymraeg y mae'n rhaid ei defnyddio wrth gynnal ymgynghoriadau.
Materion Adnoddau Dynol (Safonau 98-119)	Rhaid i ni gynhyrchu polisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol; cynnig gohebiaeth yn ymwneud â chyflogaeth yn Gymraeg, gan gynnwys ffurflenni ac e-ffurflenni.		Cyfieithu dogfennau allweddol.	<ul style="list-style-type: none"> Gofynnwyd i'r holl staff sy'n siarad Cymraeg yn y cyngor a hoffent gael unrhyw un o'u dogfennau cyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cymraeg yn y Gweithle (Safonau 120-135, 140-144)	Rhaid i ni ddarparu cyfleoedd am hyfforddiant sylfaenol yn y Gymraeg ar gyfer gweithwyr yn ystod oriau swyddfa a thalu am gyrsiau'r sawl sydd eisoes yn meddu ar sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg i ddatblygu'r sgiliau hynny.			<p>Fel ar gyfer Teleffoni, hybiau a derbynfeydd (Safonau 8-22 a 64-68) uchod. Darperir rhaglen hyfforddi Cymraeg cynhwysfawr heb unrhyw gost i'r unigolyn nac i'r adran sy'n cyflogi ac fe'i cyflawnir naill ai yn yr amser gwaith neu ar ôl gwaith os yw'n fwy cyfleus i'r swyddog.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae 10 trwydded ar gyfer meddalwedd Cysgair/Cysill yn cael eu cadw gan y cyngor i'w cynnig i swyddogion sy'n siarad Cymraeg.

Safonau sy'n ymwneud â:	Crynodeb o ddisgwyliadau newydd a grëwyd gan y Safon	Risgiau / Heriau i Gyngor Sir Fynwy	Camau Gweithredu Gofynnol / Opsiynau i'w hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau	Diweddariad ar Gynnydd
	Darparu fersiynau Cymraeg o feddalwedd lle maen nhw ar gael, megis gwirydd sillafu Cymraeg mewn pecynnau prosesu geiriau (erbyn 30 Medi).			
Recriwtio a Dethol (Safonau 136-140)	Rhaid i bob dogfen recriwtio a disgrifiad swydd fod ar gael yn Gymraeg; os cyflwynir ffurflenni yn Gymraeg, ni ddylid eu trin yn llai ffafriol; gall bobl ofyn am gyfieithu ar y pryd os ydynt yn dymuno cael eu cyfweld trwy gyfrwng y Gymraeg.		Sicrhau bod pob ffurflen a phroses yn cael eu diweddarau yn unol â'r Safonau.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl ddogfennau am swyddi gwag yn hanesyddol wedi bod ar gael. Rhaid i bob swydd wag gynnwys asesiad iaith Gymraeg – Hanfodol, dymunol. Yn achos yr uchod, mae disgrifiadau swydd a manylebau person oll yn cael eu cyfieithu. Mae'r broses hon yn cael ei monitro gan y Swyddog Iaith Gymraeg mewn partneriaeth ag Adnoddau Dynol.
Goruchwylio'r Cynllun Iaith: Cadw cofnodion, adrodd a chwynion (Safonau 145-176)	Mae angen cadw amrediad o gofnodion i ddangos cydymffurfiaeth â'r Safonau a chyhoeddi adroddiad blynyddol (yn Gymraeg) yn dangos cydymffurfiaeth. Cyhoeddi strategaeth bum mlynedd i ddangos sut rydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg.		Sicrhau bod systemau'n cael eu sefydlu i gadw cofnodion yn unol â'r safonau.	<ul style="list-style-type: none"> Mae popeth yn ei le a bu felly am flynyddoedd lawer oherwydd yr hen Gynllun Iaith Gymraeg a'r gofyniad i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol. Cytunodd y Cyngor ar strategaeth 5 mlynedd y cyngor ar y 19^{eg} Ionawr 2017 ac mae wedi'i gyhoeddi ar ei wefan - yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff yr uchod i gyd ei fonitro a'i weithredu gan y Swyddog Iaith Gymraeg.

GWEITHDREFN CWYNION YNG NGHYSWLLT Y GYMRAEG SAFON 156 – cwynion mewn perthynas â darparu gwasanaethau

Mae'r weithdrefn cwynion ar gyfer materion penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau a materion diffyg cydymffurfiaeth yn unol â Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor yn dilyn yr un gyfres o amserlenni a phrosesau â'r broses gorfforaethol (dolen isod) ond mae'n werth nodi rhai amrywiadau:

Gellir anfon cwynion i mewn ac felly eu trafod mewn dwy ffordd wahanol:

Anfon cwyn yn uniongyrchol at y Cyngor: Bydd y gŵyn yn cael ei thrin gan yr adran wasanaeth. Os nad oes y sgiliau iaith ar gael o fewn yr adran i ddelio â'r mater, yna bydd Swyddog y Gymraeg yn cydlynu'r mater, er mwyn cynnal dewis iaith yr achwynydd gyda'r gobaith wedyn y bydd datrysiad yn dod sy'n bodloni'r ddau barti. Os na cheir datrysiad, mae proses ar waith i ganiatáu i'r achwynydd gynyddu'r gŵyn.

Yn uniongyrchol at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd hyn yn sbarduno amheuaeth o beidio â chydymffurfio a fydd yn arwain at broses ymchwilio deg cam / tri mis a fydd, gobeithio, yn datrys unrhyw faterion yn foddhaol.

Cofnodi cwynion. Cofnodir nifer y cwynion swyddogol sy'n ymwneud ag amheuaeth o beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn adroddiad monitro blynyddol y cyngor

Hyfforddiant. Bydd staff yn cael eu hyfforddi gan Swyddog y Gymraeg i ymchwilio i gŵynion mewn perthynas â'r Gymraeg a delio â hwy fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith Gymraeg cysylltiedig.

SAFON 162 – Cwynion mewn perthynas â llunio polisïau

Mae'r weithdrefn cwynion ar gyfer materion penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau a materion diffyg cydymffurfiaeth yn unol â Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor yn dilyn yr un gyfres o amserlenni a phrosesau â'r broses gorfforaethol (dolen isod) ond mae'n werth nodi rhai amrywiadau:

Gellir anfon cwynion i mewn ac felly eu trafod mewn dwy ffordd wahanol:

Anfon cwyn yn uniongyrchol at y Cyngor: Bydd y gŵyn yn cael ei thrin gan yr adran wasanaeth. Os nad oes y sgiliau iaith ar gael o fewn yr adran i ddelio â'r mater, yna bydd Swyddog y Gymraeg yn cydlynu'r mater, er mwyn cynnal dewis iaith yr achwynydd gyda'r gobaith wedyn y bydd datrysiad yn dod sy'n bodloni'r ddau barti. Os na cheir datrysiad, mae proses ar waith i ganiatáu i'r achwynydd gynyddu'r gŵyn.

Yn uniongyrchol at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd hyn yn sbarduno amheuaeth o beidio â chydymffurfio a fydd yn arwain at broses ymchwilio deg cam / tri mis a fydd, gobeithio, yn datrys unrhyw faterion yn foddhaol.

Cofnodi cwynion. Cofnodir nifer y cwynion swyddogol sy'n ymwneud ag amheuaeth o beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn adroddiad monitro blynyddol y cyngor

Hyfforddiant. Bydd staff yn cael eu hyfforddi gan Swyddog y Gymraeg i ymchwilio i gŵynion mewn perthynas â'r Gymraeg a delio â hwy fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith Gymraeg cysylltiedig.

SAFON 168 – cwynion mewn perthynas â safonau gweithredu

Mae'r weithdrefn cwynion ar gyfer materion penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau a materion diffyg cydymffurfiaeth yn unol â Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor yn dilyn yr un gyfres o amserlenni a phrosesau â'r broses gorfforaethol (dolen isod) ond mae'n werth nodi rhai amrywiadau:

Gellir anfon cwynion i mewn ac felly eu trafod mewn dwy ffordd wahanol:

Anfon cwyn yn uniongyrchol at y Cyngor: Bydd y gŵyn yn cael ei thrin gan yr adran wasanaeth. Os nad oes y sgiliau iaith ar gael o fewn yr adran i ddelio â'r mater, yna bydd Swyddog y Gymraeg yn cydlynu'r mater, er mwyn cynnal dewis iaith yr achwynydd gyda'r gobaith wedyn y bydd datrysiad yn dod sy'n bodloni'r ddau barti. Os na cheir datrysiad, mae proses ar waith i ganiatáu i'r achwynydd gynyddu'r gŵyn.

Yn uniongyrchol at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd hyn yn sbarduno amheuaeth o beidio â chydymffurfio a fydd yn arwain at broses ymchwilio deg cam / tri mis a fydd, gobeithio, yn datrys unrhyw faterion yn foddhaol.

Cofnodi cwynion. Cofnodir nifer y cwynion swyddogol sy'n ymwneud ag amheuaeth o beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn adroddiad monitro blynyddol y cyngor

Hyfforddiant. Bydd staff yn cael eu hyfforddi gan Swyddog y Gymraeg i ymchwilio i gŵynion mewn perthynas â'r Gymraeg a delio â hwy fel y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith Gymraeg cysylltiedig.